**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Mark Drakeford AC
Y Prif Weinidog

11 Gorffennaf 2019

Annwyl Mark

**Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Masnach Electronig (Mabwysiadu a Phlant) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019**

Gwnaethom ystyried y memorandwm cydsyniad offeryn statudol (SICM) mewn perthynas â'r rheoliadau uchod yn ein cyfarfod ar 8 Gorffennaf 2019.

Yn ei llythyr atom ar 26 Mehefin 2019 am y memorandwm cydsyniad offeryn statudol, dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol na fyddai'n ceisio cyflwyno cynnig cydsyniad offeryn statudol (cynnig) i drafod y rheoliadau o ystyried swm y ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei hystyried.

Ar wahân i'n barn na fyddai swm y ddeddfwriaeth sydd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd yn atal dadl rhag digwydd ar y rheoliadau, ein safbwynt ni yw y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynnig ar gyfer dadl ar gyfer pob memorandwm cydsyniad offeryn statudol y mae'n ei osod gerbron y Cynulliad.

Ym mis Mawrth eleni, gwnaethom ofyn am farn y Llywydd ar ei dehongliad o Reol Sefydlog 30A. Yn ei hymateb ar 7 Mai 2019, dywedodd:

> Er nad yw Rheol Sefydlog 29 na 30A yn ei gwneud yn ofynnol i aelod o'r Llywodraeth, nac unrhyw un arall, gyflwyno cynnig cydsyniad mewn perthynas â darpariaethau perthnasol mewn unrhyw Fil neu Offeryn Statudol y DU, yr unig ffordd y gellir ceisio, a rhoi, cydsyniad y Cynulliad i'r fath ddarpariaethau yw drwy gyflwyno a phasio cynnig o'r fath. Os na fydd cynnig o'r fath wedi'i ystyried – heb sôn am ei basio – gan y Cynulliad mewn perthynas â darpariaeth berthnasol mewn unrhyw Fil neu Offeryn Statudol y DU, ni ellir dweud bod y

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Cynulliad wedi rhoi ei gydsyniad i'r ddarpariaeth honno. Byddai'n peri pryder i mi pe bai Senedd y DU yn bwrw ymlaen i ddeddfu o dan yr amgylchiadau hynny, gan y byddai'n ymddangos i mi yn groes i'r confensiwn o beidio â deddfu heb gydsyniad datganedig y Cynulliad.

O ran eich pwynt olaf, cyflwynwyd y ddarpariaeth i Aelod ac eithrio aelod o'r Llywodraeth gyflwyno cynnig cydsyniad yn 2013, ochr yn ochr â dileu'r gofyniad i'r Llywodraeth gyflwyno cynnig mewn perthynas â phob memorandwm a osodir. Cynlluniwyd y weithdrefn i'w defnyddio mewn amgylchiadau pan fydd memorandwm y Llywodraeth yn nodi nad yw'n briodol rhoi cydsyniad ym marn y Llywodraeth, ac mae'n galluogi Aelodau eraill i ddadlau'r safbwynt croes ac i gyflwyno cynnig cydsyniad i'r perwyl hwnnw. Ni ragwelwyd y byddai ei angen mewn sefyllfaoedd pan fo'r Llywodraeth yn cefnogi deddfwriaeth arfaethedig y DU, gan mai'r disgwyliad o dan yr amgylchiadau hynny yw y byddai'r Llywodraeth yn cyflwyno ei chynnig ei hun yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad i'r ddeddfwriaeth fynd rhagddi."

Mae sylwadau'r Llywydd yn atgyfnerthu ein barn y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynnig mewn perthynas â phob memorandwm cydsyniad offeryn statudol y mae'n ei roi gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwyno cynnig o'r fath, ac yna bod dadl a phleidlais yn cael eu cynnal, yw'r unig ffordd y gall y Cynulliad roi ei gydsyniad i lywodraeth y DU ddeddfu ar ei ran.

Felly, byddwn yn ddiolchgar pe bai Llywodraeth Cymru yn ailystyried ei safbwynt o ran y rheoliadau hyn cyn gynted â phosibl, ac hefyd, a fyddech yn awr yn darparu ymrwymiad i gyflwyno cynnig ar gyfer dadl mewn perthynas â phob memorandwm cydsyniad offeryn statudol y mae Llywodraeth Cymru yn ei osod gerbron y Cynulliad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English